# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(drwy Microsoft Teams)**

| **Members Present:** | **Dydd Llun, 4 Hydref 2021** |
|---|---|
| **Chairperson:** | **Councillor S.Paddison** |
| **Vice Chairperson**: | Councillor D.Whitelock |
| Councillors: | Councillors N.Davies ac M.Peters |
| **Officers in Attendance:** | N.Chapple, M.Shaw ac N.Jones |

---

1. **Cais am Adolygu Trwydded Mangre - Yr Hen Feddygfa (The Surge)**

Ystyriodd yr Aelodau gais i adolygu Trwydded Mangre ac ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003:

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Yr Hen Feddygfa (The Surge) |
| Cyfeiriad y fangre | 74 Commercial Road, Tai-bach, Port Talbot SA13 1LR |
| Enw'r ymgeisydd | Mrs Leah Morgan |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel SA11 2GG |
| Enw Deiliad y Drwydded | Mr Mark Cubberley |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Mr Mark Cubberley |

**PENDERFYNWYD:** Penderfynodd yr Is-bwyllgor addasu amodau'r drwydded mangre fel y byddai'r amodau canlynol yn berthnasol

a. Yn rhinwedd A177 (A) o Ddeddf Trwyddedu 2003 bydd amodau'r Drwydded Mangre sy'n ymwneud ag adloniant a reoleiddir mewn grym rhwng 8:00 a 23:00.

b. Ni fydd unrhyw sŵn wedi'i chwyddleisio'n allanol (h.y. yn yr ardd gwrw, y maes parcio, nac yn unrhyw le arall y tu allan i gwrtil yr adeilad).

c. Ni fydd adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yn y safle hyd nes y bydd deiliad y drwydded a/neu berchennog y safle yn comisiynu ymgynghorydd acwstig annibynnol i gynnal Asesiad Effaith Sŵn a bod y mesurau rheoli a argymhellir yn yr asesiad yn cael eu gweithredu. Bydd copi o'r Asesiad Effaith Sŵn ynghyd â thystiolaeth ategol y cydymffurfiwyd â'r gofynion yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn y gellir cymeradwyo mangre adloniant a reoleiddir.

d. Er mwyn cydymffurfio â'r uchod, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol;
    i. Rhaid i'r adroddiad gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwstig a fydd yn aelod o Gymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn ac yn aelod o'r Sefydliad Acwsteg.
    ii. Bydd y fethodoleg ar gyfer yr asesiad sŵn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol y DU a Safonau Prydeinig a bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno arnynt cyn i'r asesiad ddechrau.
    iii. Cyn gweithredu'r mesurau rheoli, rhoddir cyfle i'r Awdurdod Lleol adolygu a rhoi sylwadau ar yr Asesiad Effaith Sŵn a'i argymhellion.

e. Bydd Deiliad y Drwydded Mangre neu berson enwebedig yn cynnal arsylwadau sŵn rhagweithiol y tu allan i'r safle o leiaf unwaith yr awr wrth ddarparu adloniant a reoleiddir, ac yn cymryd unrhyw gamau adferol angenrheidiol. Bydd cofnod ysgrifenedig o asesiadau sŵn allanol rhagweithiol a, lle y bo'n berthnasol, gamau adferol a gymerir yn cael ei gadw am o leiaf 31 diwrnod i ddyddiad y cofnod diwethaf yn y cofnod a bydd y cofnod hwn ar gael i'w archwilio ar gais gan swyddogion awdurdodedig y cyngor bob amser mae'r safle ar agor.

f. Ni fydd seinyddion wedi'u lleoli wrth fynedfa ac allanfa'r safle na'r tu allan i'r adeilad.

g. Bydd pob ffenestr a drws allanol yn cael eu cadw ar gau ar ôl (21:00) o'r gloch neu ar unrhyw adeg pan fydd adloniant a reoleiddir yn digwydd, ac eithrio wrth i bobl fynd i mewn ac allan o'r fangre. *(I ddosodli'r amod presennol sy'n ymwneud â ffenestri a drysau yn cael eu cau yn ystod cerddoriaeth wedi'i chwyddleisio)*

h. Rhaid i'r ardaloedd smygu, gan gynnwys yr ardd gwrw, gael blwch llwch/biniau addas, a bydd Deiliad y Drwydded Mangre neu berson enwebedig yn monitro'r defnydd ohono. Rhaid i'r ardaloedd smygu, gan gynnwys yr ardd gwrw a'r priffyrdd cyfagos gael eu brwsio'n rheolaidd i gael gwared ar ben sigaréts a'u cadw mewn modd glân a thaclus bob amser.

i. Caiff system teledu cylch cyfyng ddigidol ei gosod ar y safle neu caiff y system bresennol ei chynnal, a fydd yn weithredol bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd ac yn gallu darparu lluniau o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig adnabod wynebau. Rhaid i'r recordiadau teledu cylch cyfyng gael eu hamseru'n gywir a'u stampio a'u cadw am gyfnod o 31 diwrnod a'u darparu i'w gweld gan yr Heddlu neu Swyddog Awdurdodedig i'r Awdurdod Trwyddedu ar gais. Rhaid i'r system roi sylw i'r meysydd canlynol:-
   - Perimedr allanol y safle
   - Mynedfeydd ac allanfeydd y safle;
   - Mannau cyhoeddus mewnol ac allanol y safle (h.y. gardd gwrw a maes parcio)

j. Bydd aelod o staff o'r fangre, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau

diweddar i'r Heddlu neu'r swyddogion awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon.

k. Bob nos Wener a nos Sadwrn, nos Sul unrhyw ŵyl banc, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, pan ddarperir adloniant, bydd o leiaf 2 oruchwylydd drws SIA cofrestredig ar ddyletswydd o 20:00 tan yr amser cau a phan na ddarperir adloniant, cyflogir un goruchwyliwr drws SIA cofrestredig. Ar bob adeg arall, bydd Deiliad y Drwydded Mangre'n asesu'r angen am oruchwylwyr drysau ac yn darparu goruchwyliaeth drws rhwng yr adegau hynny ac yn ôl yr angen sy'n ofynnol gan yr asesiad risg.

l. Bydd Goruchwylwyr Drysau yn arddangos eu trwydded SIA ar ffurf band braich llachar tra byddant ar ddyletswydd.

m. Bydd cofrestr ddyddiol o bersonél diogelwch yn cael ei chynnal. Bydd y gofrestr yn dangos enw, cyfeiriad a rhif trwydded pob goruchwyliwr drws, a'r dyddiadau a'r amseroedd y maent yn gweithredu. Rhaid bod cofrestr ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Lleol

n. Rhaid i'r llyfr cofnodi achosion gael ei gadw yn y fangre sy'n dangos manylion dyddiad ac amser unrhyw ymosodiad, anaf, damwain, ymyriad gan staff neu achos o droi allan, yn ogystal â manylion aelodau'r staff sy'n rhan o'r broses, natur y digwyddiad a'r cam gweithredu/canlyniad. Rhaid cadw'r llyfr.

o. Rhaid darparu arwyddion amlwg ym mhob rhan o'r fangre ac ym mhob allanfa yn gofyn i bobl adael mewn modd tawel a threfnus er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr lleol.